Y Comisiwn Etholiadol

Cais i gofrestru plaid wleidyddol fach ym Mhrydain Fawr

Nodiadau esboniadol ar gwblhau ffurflen RP1M

Cyfeiriwch at y ddogfen ategol, *Canllawiau ar gofrestru'n blaid wleidyddol* cyn cwblhau'r ffurflen hon. Dim ond i gofrestru plaid fach ar gofrestr pleidiau Prydain Fawr y dylid defnyddio'r ffurflen hon. **Dim ond ymladd etholiadau ar lefel plwyf neu gymuned y gall pleidiau sydd wedi'u cofrestru'n bleidiau bach ei wneud.**

Mae pob un o'r nodiadau canlynol yn cyfateb i adran wedi'i rhifo ar Ffurflen RP1M.

1 Datganiad

Mae'r datganiad hwn yn nodi bod y blaid am gael ei chofrestru'n blaid fach ar gofrestr pleidiau Prydain Fawr. Yn ogystal â nodi enw'r blaid, nodwch a ydych am i'r blaid gael ei chofrestru yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Os bydd y blaid yn dewis peidio â chofrestru mewn un neu fwy o rannau o Brydain Fawr, gall y Comisiwn Etholiadol gofrestru plaid arall gydag enw tebyg mewn rhan neu rannau eraill o Brydain Fawr. Nodwch er y gellir cofrestru pleidiau bach yn yr Alban, dim ond etholiadau plwyf yn Lloegr, a/neu etholiadau cymunedol yng Nghymru y gallant eu hymladd.

2 Llofnodion

Rhaid i'r datganiad hwn gael ei lofnodi gan arweinydd y blaid neu'r swyddog enwebu.

3 Enw'r blaid

Yn yr adran hon, rhowch yr enw y dylid ei ddefnyddio i gofrestru'r blaid. Os yw enw'r blaid mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg, dylid rhoi cyfieithiad Saesneg cywir hefyd. Os bydd enw'r blaid yn Gymraeg, nid oes angen rhoi cyfieithiad Saesneg, ond os rhoddir cyfieithiad caiff yr enw Cymraeg a'r cyfieithiad Saesneg eu cofrestru ar y cyd ar gyfer y blaid. **Cyfeiriwch at y ddogfen *Canllawiau ar gofrestru'n blaid wleidyddol* i gael canllawiau ar y rheoliadau ar gofrestru enw plaid, a'r Gofrestr gyfredol o bleidiau gwleidyddol ar wefan y Comisiwn www.comisiwnetholiadol.org.uk.**

4 Cyfeiriad

Dylid nodi cyfeiriad pencadlys y blaid. Os nad oes gan y blaid bencadlys, dylid nodi cyfeiriad y gellir anfon gohebiaeth iddo. **Noder mai hwn yw'r cyfeiriad y caiff pob gohebiaeth ei hanfon iddo, a chaiff ei gyhoeddi yn y gofrestr gyhoeddus hyd yn oed os mai cyfeiriad cartref unigolyn ydyw.**

Bydd manylion rhif ffôn yn ystod y dydd, rhif ffacs a chyfeiriad e-bost hefyd yn ddefnyddiol er mwyn i'r Comisiwn allu cysylltu â'r blaid yn haws. Ni chaiff y manylion hyn eu cyhoeddi ar y gofrestr gyhoeddus.

5 Arwyddluniau

Gall pleidiau gofrestru hyd at dri arwyddlun. Nodwch yn y blwch perthnasol sawl arwyddlun y mae'r blaid yn bwriadu ei gofrestru.

Dylech amgáu dalen atodol ar wahân yn dangos pob arwyddlun. Dylai arwyddluniau fod mewn du a gwyn yn unig, heb unrhyw liw nag arlliw llwyd, a dylent ffitio o fewn ffrâm sgwâr 5cm. Bydd hyn yn galluogi'r Comisiwn i wneud atgynhyrchiad da o'r arwyddlun, y gellir ei atgynhyrchu mewn du a gwyn ar bapurau pleidleisio.

Gall pleidiau hefyd gynnwys disgrifiad o bob arwyddlun os bydd angen.

6 Ffi amgaeedig

Yn yr adran hon, dylech gadarnhau bod y blaid wedi amgáu'r ffi o £150. **Nodwch, unwaith y bydd wedi'i chyflwyno, ni ellir ad-dalu'r ffi o £150.**

7 Swyddogion plaid

Rhowch enw a chyfeiriad cartref y bobl rydych am eu cofrestru'n arweinydd a swyddog enwebu'r blaid. Os bydd un unigolyn yn cael ei gofrestru'n arweinydd a swyddog enwebu, rhaid i'r blaid gofrestru swyddog ychwanegol i'r blaid, gan nodi swydd yr unigolyn hwnnw yn y blaid.

Nodwch na chaiff cyfeiriadau cartref unigolion eu cynnwys fel rhan o'r gofrestr a gyhoeddir o bleidiau ac felly ni fydd ar gael i bobl sy'n edrych ar gynnwys y gofrestr (oni chaiff cyfeiriad unigolyn ei gyhoeddi fel cyfeiriad y pencadlys).

Dylid dychwelyd ffurflen RP1M i:

Party Registration Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: partyreg@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

Pwysig: wrth ddelio â cheisiadau, mae'r Comisiwn Etholiadol yn ystyried gofynion deddfwriaeth mynediad cyfartal, gan gynnwys Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (a Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000) a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1985.

Y Comisiwn Etholiadol

Cais i gofrestru plaid wleidyddol fach ym Mhrydain Fawr

Pwysig: dylid darllen y nodiadau esboniadol atodol cyn cwblhau'r ffurflen hon, y gellir ei defnyddio i gofrestru plaid fach ym Mhrydain Fawr yn unig.

Nodwch os bydd eich plaid yn cofrestru drwy ddefnyddio'r ffurflen hon, mai dim ond etholiadau plwyf neu etholiadau cymunedol y gallwch eu hymladd.

1 Datganiad

Mae'r blaid a enwir isod yn gwneud cais i fod yn blaid gofrestredig yn unol â gofynion Rhan II o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Rhefferenda 2000.

Rwyf yn datgan bod y

(enw'r blaid) _____

yn bwriadu ymladd un neu fwy o etholiadau plwyf (Lloegr) neu etholiadau cymunedol (Cymru) ac yn unol â hynny mae'n gwneud cais i gael ei chofrestru yn y rhannau canlynol o gofrestr Prydain Fawr yn unig:

Cymru ☐ Lloegr ☐ yr Alban ☐

2 Llofnodion

Arweinydd arfaethedig y blaid gofrestredig

Rwyf yn datgan bod gennyf yr awdurdod i lofnodi'r cais hwn ar ran y blaid a enwir uchod.

Llofnodwyd _____

Enw wedi'i brintio _____ Dyddiad ☐☐ dd ☐☐ mm ☐☐☐☐ bbbb

Swyddog enwebu cofrestredig arfaethedig

Rwyf yn datgan bod gennyf yr awdurdod i lofnodi'r cais hwn ar ran y blaid a enwir uchod.

Llofnodwyd _____

Enw wedi'i brintio _____ Dyddiad ☐☐ dd ☐☐ mm ☐☐☐☐ bbbb

Dyddiad derbyn dd mm bbbb

Gwiriwyd gan

Dyddiad cofnodi yn y gronfa ddata dd mm bbbb

Rhif cyfeirnod y ffeil

3 Enw'r blaid

Saesneg

Cymraeg

Iaith arall

Cyfieithiad Saesneg

4 Cyfeiriad (pencadlys y blaid neu ar gyfer gohebiaeth os nad oes pencadlys)

Tref

Sir

Cod post

Rhif ffôn

Rhif ffacs

Gwefan/cyfeiriad e-bost

5 Arwyddluniau

(nodwch y rhif)

Manylion yr arwyddluniau wedi'u cyflwyno ar daflen(ni) ar wahân? Ydw Nac ydw

6 Ffi amgaeedig

(ticiwch lle y bo'n briodol)

Wedi amgáu ffi o £150? (Ni ellir ad-dalu'r ffi) Ydw Nac ydw

7 Swyddogion plaid

Arweinydd y blaid

Dr/Mr/Mrs/Ms/Miss/arall

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad cartref

Tref

Sir

Cod post

Os yw'n arweinydd am ddiben penodol, nodwch hynny

Swyddog enwebu

Dr/Mr/Mrs/Ms/Miss/arall

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad cartref

Tref

Sir

Cod post

Swyddog ychwanegol (os oes angen)

Dr/Mr/Mrs/Ms/Miss/arall

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad cartref

Tref

Sir

Cod post

Dychwelwch y ffurflen hon i:

Party Registration Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: partyreg@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

Datganiad preifatrwydd

Dim ond er mwyn cefnogi ein swyddogaethau statudol y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol, nac unrhyw wybodaeth bersonol y gallwch ei rhoi am bobl eraill, ag unrhyw unigolyn oni bai bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen arnom er mwyn cyflawni tasgau er budd y cyhoedd ac arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i'r Comisiwn Etholiadol fel y nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig a deddfwriaeth etholiadol arall.

Caiff rhywfaint o'r wybodaeth a gesglir yn y ffurflen hon ei dosbarthu'n ddata personol categori arbennig. Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon er budd sylweddol y cyhoedd, sy'n seiliedig ar gyfraith y DU. Er mwyn prosesu'r math hwn o wybodaeth, mae'n rhaid bod gan y Rheolydd Data ddogfen bolisi berthnasol sy'n nodi'r modd yr ymdrinnir â'r wybodaeth hon.

Y Comisiwn Etholiadol yw'r Rheolwr Data a gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn dataprotection@electoralcommission.org.uk.

Gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd yn electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd i gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu data personol.